# Ailgylchu pŵ

Mae pobl yn ailgylchu pob math o bethau heddiw - pethau fel papur, rhai mathau o blastig, gwydr, cetrys inc, hyd yn oed bwyd. Ond beth am ailgylchu pŵ - neu â defnyddio iaith fwy gwyddonol, carthion? I beth? I wneud papur!

Mae cwmni yng ngogledd Cymru'n casglu pŵ defaid er mwyn cynhyrchu papur ond mae cwmnïau ar draws y byd yn casglu pŵ anifeiliaid eraill ac yn cynhyrchu papur hefyd. Yn Awstralia, maen nhw'n gwneud papur o bŵ cangarŵ. Yng Ngwlad Thai maen nhw'n casglu pŵ eliffant a phŵ panda i wneud papur. Yn China, maen nhw'n gwneud papur o bŵ pandas. Mae Sŵ Chiang Mai, Gwlad Thai a chanolfan sy'n gwarchod ac yn ymchwilio i Pandas yn Chengdu yn China yn gwerthu papur sydd wedi ei wneud o bŵ panda.

……………………………..

I ddechrau, rhaid casglu'r pŵ, ei olchi a'i ferwi am amser hir. Mae hyn yn ei sterileiddio. Yna, rhaid meddalu'r gymysgedd a thorri'r ffibrau. Mae ffibrau eraill yn cael eu hychwanegu ac, weithiau, lliwiau gwahanol. Yna, mae'r gymysgedd yn cael ei harllwys yn haenen denau ar ridyllau neu ograu (*sieves*) mawr ac yno mae'n cael ei sychu.

Mae ailgylchu pŵ i greu papur yn syniad ardderchog! Mae'n arbed coed. Mae'n ffordd dda o reoli gwastraff anifeiliaid, yn enwedig mewn sŵ neu ganolfannau anifeiliaid. Yn ogystal, mae'r broses golchi'n cynhyrchu gwrtaith neu *fertilizer* gwych ar gyfer yr ardd ac mae modd gwerthu hwn i arddwyr neu ffermwyr.

Ydyn, mae pobl yn ailgylchu pob math o bethau heddiw - hyd yn oed carthion – ac mae hyn yn beth da i'r amgylchedd. Daliwch ati, bawb!

